Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Request 12/02/19
Ein cyf/Our ref: ATISN 12968

14 Mawrth 2019

Annwyl ,

ATISN 12968 Cais Rhyddid Gwybodaeth - Ysgolion 21ain Ganrif

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 12 Chwefror. Roeddech yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:

- Yr holl ohebiaeth rhwng "Bwrdd y Rhaglen Gyfalaf Addysg ac Ysgolion 21ain Ganrif" a Chyngor Ynys Môn ers 1af Ionawr 2017

- Yr holl ohebiaeth rhwng "Panel Buddsoddi Cyfalaf Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru" a Chyngor Ynys Môn ers 1af Ionawr 2017

Ar ôl cwblhau chwiliad o'n cofnodion papur ac electronig, rydwyf wedi dod i'r casgliad na fu unrhyw ohebiaeth rhwng y cyrff Llywodraeth Cymru a enwir yn eich cais a Chyngor Ynys Môn ers 01af Ionawr 2017.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru.

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gwyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir